

Trefniadau'r Awdurdod Lleol ar gyfer datrys anghytundebau a'r hawl i apelio

Beth ddylwn i ei wneud os ydw i'n anghytuno â phenderfyniad a wnaed gan ysgol ynglŷn ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu Gynllun Datblygu Unigol Ysgol (CDU)?

Os nad yw'r ysgol yn cytuno bod gan eich plentyn ADY, neu os nad ydych chi'n hapus â chynnwys CDU eich plentyn. Yn y lle cyntaf bydd angen i chi drafod hyn gyda'r ysgol. Os ydych chi'n dal i fod yn anfodlon, yna gallwch ofyn i'r awdurdod lleol ailystyried y penderfyniad a wnaed gan yr ysgol.

Cyfeirio at yr awdurdod lleol i'w ailystyried

Os hoffech i'r Awdurdod Lleol ailystyried penderfyniad ysgol, anfonwch e-bost at:
alnenquiries@valeofglamorgan.gov.uk

Gwybodaeth ychwanegol

I gael rhagor o wybodaeth am ADY gan gynnwys Datrys Anghydfodau, ewch i'n gwefan:

<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/living/schools/Additional-Learning-Needs/Additional-Learning-Needs.aspx>

Beth ddylwn i ei wneud os ydw i'n anghytuno â phenderfyniad ynghylch anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu Gynllun Datblygu Unigol Ysgol (CDU) a wnaed gan SAB neu awdurdod lleol?

Rydym yn annog y plentyn, rhiant neu berson ifanc y plentyn i godi unrhyw bryderon cyn gynted â phosibl. Dylai'r ysgol ystyried unrhyw broblemau a mynd i'r afael â nhw'n briodol, er enghraifft, esbonio unrhyw benderfyniadau neu faterion eraill neu, os yw'n briodol, adolygu CDU.

Gallwch gysylltu â Chydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cydllynnydd ADY) yr ysgol neu'r Pennaeth. Mae'r manylion cyswllt perthnasol i'w gweld yn yr Hysbysiad(au) ADY y byddwch wedi'i gael gan yr ysgol ac ar wefan yr ysgol.

Yn achos plant dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn yr ysgol, gallwch **drafod y mater â'r Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar**. Gallwch e-bostio Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a nodir yn y tabl isod, neu ffoniwch 01446 709180

Y Blynyddoedd Cynnar Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol	Manylion Cyswllt
Kirsty Gamlin	klgamlin@valeofglamorgan.gov.uk

Ar gyfer pobl ifanc (ôl-16) gallwch **drafod y mater gyda Swyddog CDU ADY Ôl-16**. Gallwch gysylltu â Swyddog CDU ADY Ôl-16 gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a nodir yn y tabl isod, neu ffonio 01446 709180

Swyddog Ansawdd ADY (Ôl-16)	Manylion Cyswllt
Jennifer Dunstan	jdunstan@valeofglamorgan.gov.uk

Gallwch hefyd **gysylltu â'r Gwasanaeth Gwybodaeth a Chymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol, SNAP Cymru** ar 0808 801 0608 am gyngor neu gymorth annibynnol. Efallai y byddant hefyd yn eich rhoi mewn cysylltiad â'r trefniadau anffurfiol sydd ar gael i ddatrys neu atal unrhyw anghytundeb rhyngoch chi a'r awdurdod lleol.

Gallwch hefyd ddefnyddio trefniadau'r awdurdod lleol i ddatrys anghytundebau. Gallwch e-bostio alnenquiries@valeofglamorgan.gov.uk gyda'ch pryderon a bydd swyddog Awdurdod Lleol yn ymateb ac yn rhoi cyngor ynglŷn â'r camau nesaf.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn gofyn am ragor o fanylion am y materion neu'r diwygiadau y gofynnwyd amdanynt. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei hadolygu drwy broses y Panel Awdurdodau Lleol ac ymgynghori â gweithwyr proffesiynol sy'n cymryd rhan ac yn gweithredu os oes angen, yn dibynnu ar y materion unigol a amlygir. Yna trefnir cyfarfodydd gyda swyddog Awdurdod Lleol i ystyried y materion a amlygwyd a allai gynnwys yr Awdurdod Lleol yn cyhoeddi CDU diwygiedig.

Mae SNAP Cymru yn darparu [Gwasanaeth Datrys Anghytundeb Annibynnol](#) i helpu i ddatrys anghydfodau. Mae'r gwasanaethau arbenigol hyn am ddim ac yn annibynnol o'r Awdurdod Lleol. I gychwyn y broses gallwch gwblhau [ffurflen atgyfeirio](#) neu cysylltwch â SNAP (0808 801 0608 neu DRS@snapcymru.org). Nid yw ymrwymo i drefniadau datrys anghytundeb yn effeithio ar unrhyw hawliau i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru (TAC).

Nid yw defnyddio trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer datrys anghytundebau yn orfodol ac nid yw ymrwymo i drefniadau datrys anghytundeb yn effeithio ar unrhyw hawliau i apelio i'r Tribiwnlys

Hawliau apelio clir a chyson

Hawliau clir a chyson i apelio yw un o nodau Deddf Tribiwnlys Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Addysg (Cymru) 2018. Os na ellir datrys anghytundebau ynghylch penderfyniadau a wneir mewn perthynas ag ADY neu CDU yn lleol, mae'r Ddeddf yn sicrhau bod gan blant a phobl ifanc (a gofalwyr/rhieni plant dan 16 oed) yr hawl i apelio i dribiwnlys.

Roedd yr Hysbysiad(au) ADY a gawsoch gan y SAB neu Awdurdod Lleol hefyd yn cynnwys gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn penderfyniadau a wneir yn perthynas ag ADY neu am agweddau penodol ar y CDU.

Beth mae Tribiwnlys Addysg Cymru yn ei wneud?

Mae'r Tribiwnlys yn gwrando ac yn penderfynu ar apeliadau a cheisiadau sy'n ymwneud â phlant a phobl sydd ag ADY neu a allai gael ADY. Yn benodol, mae'n gwrando ac yn penderfynu ar apeliadau ar benderfyniadau a wneir gan sefydliadau addysgol pellach neu awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae gan bob plentyn, eu rhieni neu ofalwyr a phobl ifanc yr hawl i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru yn erbyn penderfyniadau. Eu gwaith yw clywed a phenderfynu apeliadau am blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Gallwch chi, y rhiant/gofalwr neu'r person ifanc ei hun apelio. Mae TAC yn annibynnol ar y llywodraeth, awdurdodau lleol, ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach (SABau). Mae ei benderfyniadau yn gyfreithiol rwymol.

Er nad oes hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg mewn perthynas â phenderfyniadau ADY a wneir gan ysgol, mae'n bosibl apelio yn erbyn penderfyniad awdurdod lleol wrth ailystyried penderfyniad gan ysgol a gynhelir ar ADY neu CDU.

Bydd y Tribiwnlys hefyd yn gwrando ar achosion lle honnir bod gwahaniaethu ar sail anabledd mewn perthynas ag ysgolion.

Mae'r Tribiwnlys Addysg yn annibynnol ar y llywodraeth, awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau addysg uwch; ac mae ei benderfyniadau wedi'u hymgorffori yn y gyfraith.

Gall y Tribiwnlys wneud penderfyniadau ynghylch gallu plentyn i ddeall materion sy'n ymwneud â'r system ADY, gan gynnwys yr hyn y mae cyflwyno apêl i Dribiwnlys yn ei olygu. Os yw'n nodi nad oes gan blentyn ddigon o allu i ddeall, gall y Tribiwnlys benodi ffrind achos i'r plentyn ar gais. Gellir penodi ffrind achos i gefnogi'r plentyn neu'r person ifanc trwy'r broses dribiwnlys.

Gall y Tribiwnlys hefyd fynnu bod corff y GIG yn cyflwyno tystiolaeth am elfennau apêl sy'n ymwneud ag iechyd, a gall wneud argymhellion i gorff y GIG ynglŷn ag arfer ei swyddogaethau o dan Ddeddf ADY. Os yw Tribiwnlys yn gwneud argymhelliad i gorff y GIG, rhaid i'r corff hwnnw adrodd yn ôl i'r Tribiwnlys gan nodi'r camau sydd wedi eu cymryd neu y mae'n bwriadu eu cymryd mewn ymateb i argymhelliad y tribiwnlys; neu pam nad ydynt wedi'u gweithredu ac nad yw'n bwriadu cymryd unrhyw gamau mewn ymateb i'r argymhelliad.

Pa faterion y gellir apelio yn unig?

Gall plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc apelio i'r Tribiwnlys am y materion canlynol:

- penderfyniad gan SAB neu awdurdod lleol ynghylch a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY;
- yn achos person ifanc, penderfyniad gan awdurdod lleol ynghylch a oes angen paratoi a chynnal CDU;
- disgrifiad o ADY y person mewn CDU;
- y DDdY mewn CDU, neu'r ffaith nad yw DDdY mewn CDU, gan gynnwys a yw'r cynllun yn nodi y dylid darparu DDdY yn Gymraeg.
- y darpariaeth a gynhwysir mewn CDU gan awdurdod lleol o dan adrannau 14(6) neu 19(4) neu'r ffaith nad yw'r ddarpariaeth o dan yr adrannau hynny mewn cynllun
- yr ysgol a enwir mewn CDU at ddibenion derbyn plentyn i sefydliad a enwir, neu os nad yw ysgol wedi'i henwi mewn CDU at ddibenion derbyn;
- penderfyniad gan yr awdurdod lleol i beidio ag adolygu CDU pan fydd plentyn, rhiant neu berson ifanc y plentyn yn gofyn i'r awdurdod lleol ailystyried CDU sy'n cael ei gynnal gan ysgol a gynhelir
- penderfyniad gan awdurdod lleol i beidio â chymryd cyfrifoldeb am CDU, sy'n cael ei gynnal gan ysgol, pan ofynnir iddo wneud hynny gan blentyn neu riant, person ifanc neu gorff llywodraethu'r ysgol honno;
- penderfyniad i beidio â chynnal CDU;
- gwrthod penderfynu ar fater ar y sail nad oes unrhyw newid sylweddol mewn anghenion neu nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad¹³

Os byddaf yn defnyddio trefniadau datrys anghytundeb yr awdurdod lleol, a ydw i'n cadw fy hawl i apelio i'r Tribiwnlys?

Nid yw defnyddio trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer datrys anghytundebau yn orfodol ac nid yw ymrwymo i drefniadau datrys anghytundeb yn effeithio ar unrhyw hawliau i apêl i'r Tribiwnlys

Pwy all apelio i'r Tribiwnlys?

Mae Deddf ADY 2018 yn rhoi'r hawl i blentyn neu berson ifanc (a gofalcwyr/rhieni plant dan 16 oed), apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn penderfyniad sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol ynghylch penderfyniadau a wneir mewn perthynas ag ADY neu CDU.

A all plant gyflwyno eu hapêl eu hunain?

Gall plant gyflwyno eu apeliadau eu hunain i'r Tribiwnlys os oes ganddynt ddigon o allu (neu ddealltwriaeth) i wneud hynny. Lle bo angen, gall y Tribiwnlys wneud penderfyniadau ynghylch gallu plentyn i ddeall materion sy'n ymwneud â'r system ADY.

Gall plant sydd heb y gallu ddod ag apêl i'r Tribiwnlys yn eu henw eu hunain, gyda ffrind achos i'w cynrychioli a'u cefnogi ac i wneud penderfyniadau ar eu rhan os nad oes ganddynt riant sy'n fodlon neu'n gallu cyflwyno apêl i'r Tribiwnlys dros y plentyn.

Pryd alla i apelio i'r Tribiwnlys?

Mae terfyn amser o 8 wythnos ar gyfer apelio i'r Tribiwnlys Addysg Cymru. Rhaid i'r Tribiwnlys Addysg Cymru dderbyn eich cais am apêl a'r datganiad achos ategol (tystiolaeth) **yn ysgrifenedig** heb fod yn hwyrach na'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl dod i ben 8 wythnos sy'n dechrau gyda'r dyddiad pan roddwyd yr hysbysiad.

Os yw plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc yn penderfynu defnyddio trefniadau datrys anghytundeb, mae'r cyfnod o 8 wythnos yn cael ei ymestyn am 8 wythnos arall.

Sut ydw i'n gwneud apêl i'r Tribiwnlys?

Mae Tribiwnlys Addysg Cymru yn rhoi cyngor ac arweiniad ar ei wefan ar y proses apeliadau a'r gweithdrefnau i'w dilyn.

www.tribiwnlysaddysg.llyw.cymru

Manylion cyswllt Tribiwnlys Addysg Cymru yw:

Tribiwnlys Addysg Cymru Uned Tribiwnlysoedd Cymru

Blwch Post 100

Llandrindod LD1 9BG

Ffôn: 0300 025 9800

E-bost: tribiwnlysaddysg@llyw.cymru neu ymholiadau.tribiwnlys@llyw.cymru

Gwefan: www.tribiwnlysaddysg.llyw.cymru

Ble alla i ddod o hyd i gymorth gyda'r broses apelio?

Mae Tribiwnlys Addysg Cymru yn rhoi cyngor ac arweiniad ar ei wefan www.tribiwnlysaddysg.llyw.cymru ar y broses apeliadau a'r gweithdrefnau i'w dilyn.

Gallwch **gysylltu â'r gwasanaeth partneriaeth rhieni, SNAP Cymru** ar 0845 1203730 am gyngor neu gymorth annibynnol.

Pa benderfyniadau y gall Tribiwnlys Addysg Cymru eu gwneud, ar ôl clywed apêl?

- gwrthod yr apêl;
- gorchymyn bod gan berson, neu nad oes ganddo, ADY o fath a bennir yn y gorchymyn;
- gorchymyn SAB neu awdurdod lleol i baratoi CDU;
- gorchymyn SAB neu awdurdod lleol i adolygu CDU fel y nodir yn y gorchymyn;
- gorchymyn ysgol, SAB neu awdurdod lleol i barhau i gynnal CDU (gyda neu heb ddiwygiadau);
- gorchymyn awdurdod lleol i gymryd cyfrifoldeb am gynnal cynllun datblygu CDU;
- gorchymyn SAB neu awdurdod lleol i adolygu cynllun datblygu CDU;
- trosglwyddo'r achos i SAB sy'n gyfrifol am y mater, neu i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y mater, er mwyn iddo ailystyried gan ystyried unrhyw sylwadau a wneir gan y Tribiwnlys ac a yw'n angenrheidiol i benderfyniad gwahanol gael ei wneud neu gamau gwahanol gael eu cymryd.

Beth ddylwn i ei wneud os ydw i'n anhapus â'r ddarpariaeth iechyd o fewn y Cynllun Dysgu Unigol (CDU) neu'r Cynllun Gofal Iechyd Unigol?

Os yw'n fater y GIG (Bwrdd Iechyd), h.y. pryder am ofal, gwasanaeth neu driniaeth a ddarperir gan gorff y GIG (naill ai a ddisgrifir yn adran 2C o'r CDU, neu ofal neu driniaeth arall), siaradwch â staff perthnasol y GIG cyn gynted â phosibl. Os nad ydych chi'n teimlo'n gyfforddus yn siarad â nhw yn uniongyrchol, neu os ydych chi'n teimlo nad yw'r mater wedi'i ddatrys, ewch i'r broses Gweithio i Wella.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer rheoli pryderon a chwynion sy'n ymwneud â'r GIG yng Nghymru: [Gweithio i Wella](#) Mae Gweithio i Wella yn seiliedig ar ddull integredig, sy'n dwyn ynghyd reoli cwynion, digwyddiadau a hawliadau ac mae'n seiliedig ar yr egwyddor 'ymchwilio unwaith, ymchwilio'n dda.' Os yw eich pryder yn ymwneud â gwasanaeth a ddarperir gan y GIG neu ddiffyg gwasanaeth, disgwylir y byddwch yn defnyddio'r Broses Gweithio i Wella.

Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA)

(y swyddog sy'n gyfrifol am gydlyn swyddogaethau Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY)

Fel rhan o'r rôl, mae'r Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig yn gyfrifol am oruchwylio unrhyw gŵyn neu anghydfod sy'n ymwneud â gweithredu swyddogaethau Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro o dan Ddeddf ADY 2018. Gallai hyn gynnwys cymryd camau uniongyrchol i ddatrys y gŵyn neu'r anghydfod, neu sicrhau bod system gadarn ar waith i ddod â'r partïon at ei gilydd mewn ymgais i ddatrys y broblem yn gynnar.

Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA) Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro: Natalie Vanderlinden

Gwybodaeth am ddulliau eraill o herio

Yn ogystal ag apeliadau i Dribiwnlys Addysg Cymru, mae sawl dull arall y gall dysgwyr a'u teuluoedd herio corff cyhoeddus os ydynt yn teimlo bod y corff hwnnw wedi methu â chyflawni eu dyletswyddau cyhoeddus, gan gynnwys y dyletswyddau hynny a wneir o dan Ddeddf ADY 2018.

Gweithdrefn cwynion ysgolion

Cyfeiriwch at Weithdrefn Cwynion Ysgol eich plentyn ynglŷn â gweithdrefn gwyno'r ysgol ar wefan yr ysgol.

Gweithdrefn gwyno awdurdod lleol

Gallwch gyflwyno cwyn i'r Cyngor os ydych yn anhapus â safon y gwasanaeth rydych wedi'i dderbyn gan y Cyngor, neu os ydych yn anhapus am rywbeth y gallai'r Cyngor neu aelod o'i weithlu fod wedi'i wneud neu beidio.

Gwefan: Cyflwyno cwyn ar-lein:

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/our_council/We-are-listening-and-learning.aspx

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Gall Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ystyried cwynion gweithdrefnol am ddarparwr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau lleol a chyrrff y GIG.

Gwefan:

www.ombwdsmon.cymru E-bost:

holi@ombudsman.cymru Ffôn:

0300 790 0203

Comisiynydd Plant Cymru

Mae gan Gomisiynydd Plant Cymru wasanaeth ymchwilio a chynghor am ddim a all roi cymorth gyda chwynion a materion sy'n ymwneud â'r system ADY.

Gwefan:

www.complantcymru.org.uk E-bost:

post@complantcymru.org.uk

Ffôn: 01792 765600 / Rhadffon: 0808 801 1000

Comisiynydd y Gymraeg

Gall Comisiynydd y Gymraeg ystyried cwynion am sefydliadau yng Nghymru sut sy'n methu â chadw at y safonau iaith Gymraeg priodol.

Gwefan: www.comisiynyddygyymraeg.cymru E-

bost: post@cyg-wlc.cymru

Ffôn: 0345 6033 221

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English